Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cyllid**
—
Welsh Parliament
**Finance Committee**

1 Gorffennaf 2020

Annwyl Syr/Madam

Ymchwiliad i weithredu Deddf Cymru 2014 a'r Fframwaith Cyllidol – Ymgynghoriad

Mae'r **Pwyllgor Cyllid** yn cynnal ymchwiliad i weithredu **Deddf Cymru 2014** a'r Fframwaith Cyllidol. Mae cylch gorchwyl yr ymchwiliad fel a ganlyn:

Trethi

- Egwyddorion treth Llywodraeth Cymru, p'un a yw'r rhain wedi'u cyflawni ac a yw'r drefn dreth bresennol a threthi newydd arfaethedig yn cyd-fynd â'r egwyddorion hyn;
- Pa mor llwyddiannus fu gweinyddiaeth trethi Cymru a chyfraddau treth incwm Cymru;
- Pa newidiadau i dreth y gellid eu cyflwyno yn y dyfodol ac a oes cwmpas ar gyfer dull gwahanol o drethu yng Nghymru;
- Sut mae'r mecanwaith ar gyfer datganoli pwerau ar gyfer trethi newydd Cymru wedi bod yn perfformio.

Y Fframwaith Cyllidol

- Ystyried prosesau'r fframwaith cyllidol a sut mae cyllid yn cael ei ddyrannu i grant bloc Cymru;
- Archwilio sut y caiff Fformiwla Barnett ei gymhwyso a'r meini prawf ar gyfer eithrio cyllid penodol o'r fformiwla;
- Ystyried y mecanwaith ar gyfer addasu'r grant bloc ac effeithiolrwydd y model addasu;
- Adolygu addasrwydd y dulliau o reoli'r gyllideb, fel Cronfa Wrth Gefn Cymru, a'r gallu i fenthyca;
- Gwerthuso sut caiff effeithiau goferu eu trin, a'r mecanwaith ar gyfer cytuno ar yr effeithiau hyn;
- Gwneud cymariaethau rhwng Cymru a fframweithiau cyllidol rhyngwladol eraill.

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCyllid@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddFinance@senedd.wales
0300 200 6565

Mae rhagor o fanylion am yr ymchwiliad ar gael ar wefan Senedd Cymru:

**https://busnes.senedd.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=28925**

## Gwahoddiad i gyfrannu at yr ymchwiliad

Mae'r Pwyllgor yn croesawu tystiolaeth gan y rhai sydd â diddordeb yn y pwnc hwn.

Os ydych yn ymateb ar ran sefydliad, dylech roi disgrifiad byr o rôl eich sefydliad.

Mae gan Senedd Cymru ddwy iaith swyddogol, sef Cymraeg a Saesneg. Yn unol â Chynllun Ieithoedd Swyddogol y Senedd, mae'r Pwyllgor yn gofyn i ddogfennau neu ymatebion ysgrifenedig i ymgynghoriadau y bwriedir eu cyhoeddi neu eu defnyddio yn nhrafodion Senedd Cymru gael eu cyflwyno yn ddwyieithog. Pan na chaiff dogfennau neu ymatebion ysgrifenedig eu cyflwyno yn ddwyieithog, byddwn yn cyhoeddi yn yr iaith a gyflwynwyd, gan ddweud eu bod wedi dod i law yn yr iaith honno'n unig.

Rydym yn disgwyl i sefydliadau eraill weithredu eu safonau neu eu cynlluniau eu hunain a chydymffurfio â'u rhwymedigaethau statudol.

Bydd y Pwyllgor yn ystyried yr ymatebion i'r ymchwiliad ac yn cynnal sesiynau tystiolaeth lafar yn ystod tymor yr hydref.

Os hoffech gyflwyno tystiolaeth, anfonwch gopi electronig o'ch tystiolaeth at: seneddcyllid@senedd.cymru

Dylai unrhyw dystiolaeth gyrraedd erbyn 4 Medi 2020. Mae'n bosibl na fydd modd ystyried ymatebion a ddaw i law ar ôl y dyddiad hwn. Mae **canllawiau** ar gael i dystion sy'n cyflwyno tystiolaeth i bwyllgorau.

Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar pe gallech anfon copi o'r llythyr hwn at unrhyw unigolyn neu sefydliad a hoffai gyfrannu at yr ymchwiliad. Mae copi o'r llythyr hwn wedi'i roi ar wefan y Pwyllgor ynghyd â gwahoddiad agored i gyflwyno sylwadau.

## Datgelu gwybodaeth

Mae polisi'r Senedd ynghylch datgelu gwybodaeth ar gael **yma.** Gofalwch eich bod yn ystyried y manylion hyn yn ofalus cyn cyflwyno gwybodaeth i'r Pwyllgor. Neu, mae copi caled o'r polisi hwn i'w gael drwy gysylltu â'r Clerc (Bethan Davies - 0300 200 6372).

Yn gywir,



Llyr Gruffydd AS

Cadeirydd